# Cymorth Cyfreithiol mewn Achos Troseddol: Cais am Adolygiad ar sail Caledi

COMISIWN gwasanaethau cyfreithiol

Rhaid i chi ateb bob cwestiwn a darparu tystiolaeth pan fydd angen. Gall peidio â gwneud hynny arafu'r broses o ddarparu cymorth cyfreithiol ac efallai na dderbyniwch help cyfreithiol am ddim gan eich twrnai.

Llenwch y ffurflen mewn inc du neu las a defnyddiwch PRIF LYTHRENNAU. Byddwn yn dychwelyd eich cais os na fydd modd i ni ei ddarllen. Holwch dwrnai am gyngor os nad ydych yn siŵr sut mae ateb unrhyw gwestiwn ar y ffurflen hon.

Mae arweiniad ynghylch sut mae llenwi pob adran a'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gael yn y ddogfen 'Hardship Review: Guidance' a gellir ei lawr lwytho oddi ar y we yn www.legalservices.gov.uk.

**Cyn i chi lenwi'r ffurflen hon, trowch at y nodiadau canllaw a anfonwyd atoch gyda'r ffurflenni.**

## RHAN A – MANYLION Y CEISYDD A'R TWRNAI

### Manylion y ceisydd

Dylai'r ceisydd lenwi'r adran hon.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. Enw(au) cyntaf y ceisydd | | | |
| 2. Cyfenw'r ceisydd | | | |
| 3. Dyddiad geni | Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
| 4. Dyddiad ffeilio'r cais am gymorth cyfreithiol yn y llys | Diwrnod | Mis | Blwyddyn |

### Manylion y Twrnai

Dylai'r twrnai a gyfarwyddir lenwi'r adran hon.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5. Rhif cyfrif Darparwr Gwasanaethau Cyfreithiol y Comisiwn Gwasanaeth Cyfreithiol | | | | | | |

| | |
|---|---|
| 6. Enw'r Twrnai | |
| 7. Enw'r cwmni neu'r sefydliad | |
| 8. Rhif ffôn gwaith | 9. Rhif ffacs |
| 10. Cyfeiriad e-bost | |

## RHAN B – RHESYMAU DROS YR ADOLYGIAD AR SAIL CALEDI

Nodwch pam eich bod yn gwneud cais am adolygiad ar sail caledi drwy lenwi'r adran(nau) priodol isod sy'n berthnasol i'ch achos.

Mae arweiniad ynghylch sut mae llenwi pob adran a'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gael yn y ddogfen 'Hardship Review: Guidance' a gellir ei lawr lwytho oddi ar y we yn www.legalservices.gov.uk.

**Adran 1: Ffynonellau cyllid eraill**

Dylai'r Ceisydd lenwi'r adran hon.

1. Nodwch faint o gynilion arian sydd gennych.

Cynilion arian:
£

Os caiff incwm eich partner ei ddatgan ar eich cais gwreiddiol, nodwch faint o gynilion arian sydd ganddo/ganddi.

Cynilion arian:
£

**Adran 2: Costau'r twrnai**

Dylai'r twrnai a gyfarwyddir lenwi'r adran hon.

**Rhaid i'r twrnai a gyfarwyddwyd amgáu datganiad ysgrifenedig yn dynodi ym mha lys y caiff yr achos ei glywed, cyfiawnhad dros ddyrannu'r nifer o oriau a amcangyfrifwyd, manylion yr alldaliadau a graddfa'r sawl sy'n ennill y ffioedd.**

2a. Math o drosedd:

2b. Ple gwreiddiol (os ydych yn ei wybod)

2c. Graddfa Enillydd Ffioedd: Graddfa:

2d. Cyfradd fesul awr berthnasol: £

Gweler yr arweiniad os gwelwch yn dda ynglŷn â chyfradd fesul awr berthnasol

2e. Amcan o nifer yr oriau a dreulir ar yr achos hwn: awr

2f. Cyfanswm (cyfradd fesul awr x oriau a dreulir): £ TAW £

2g. Amcan o gost y taliadau (gan gynnwys cwnsler) a TAW. Rhowch fanylion y taliadau hefyd.

£ TAW £

2h. Cyfanswm y Costau a'r Taliadau gan gynnwys TAW £

£

**Adran 3: Gwrthod mynediad at incwm**

Dylai'r Ceisydd lenwi'r adran hon.

Dylech lenwi'r adran hon os gwrthodwyd mynediad i chi at ffynhonnell o incwm a oedd wedi'i chynnwys yn eich cais gwreiddiol am gymorth cyfreithiol (Ffurflen CDS15)

3a. Rhowch fanylion yr incwm y gwrthodwyd i chi gael mynediad ato.

3c. Nodwch faint a pha mor aml y byddid wedi derbyn taliadau.

£ bob

3e. Rhowch y dyddiad pan wrthodwyd i chi gael mynediad at yr incwm hwn gyntaf.

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|

**Adran 4: Gwariant Ychwanegol**

Dylai'r Ceisydd lenwi'r adran hon.

Dylech lenwi'r adran hon os oes gennych wariant ychwanegol i'r hyn a roddwyd yn eich cais gwreiddiol am gymorth cyfreithiol (Ffurflen CDS15)

4a. Rhowch fanylion y gwariant ychwanegol a pha mor aml yr ydych yn gwneud taliadau

| Math o Wariant | Swm | | Darparwyd tystiolaeth? |
|---|---|---|---|
| 1. | £ | bob | ☐ |
| 2. | £ | bob | ☐ |
| 3. | £ | bob | ☐ |
| 4. | £ | bob | ☐ |
| 5. | £ | bob | ☐ |
| 6. | £ | bob | ☐ |
| 7. | £ | bob | ☐ |
| 8. | £ | bob | ☐ |
| 9. | £ | bob | ☐ |
| 10. | £ | bob | ☐ |

## Adran 5: Gwybodaeth ychwanegol

COMISIWN gwasanaethau cyfreithiol

Dylai'r Ceisydd lenwi'r adran hon.

Defnyddiwch yr adran isod i hysbysu'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol o unrhyw amgylchiadau ychwanegol nas ystyrir yn unman arall ar y ffurflen hon, a fydd yn effeithio ar eich gallu i dalu am gost eich amddiffyniad. Rhowch daflenni ychwanegol ynghlwm os oes angen.

Dylai'r cyfreithiwr lenwi'r adran hon.

Rhaid i'r cyfreithiwr dan gyfarwyddyd ysgrifennu datganiad yn nodi enw'r llys y cynhelir yr achos ynddo ac yn egluro pam fod yr achos angen yr oriau, y treuliau a'r raddfa ennill ffi amcangyfrifiedig.

## RHAN C - DATGANIAD

Rhaid llenwi pob datganiad sy'n berthnasol i'ch cais.

Awdurdod gan Bartner

Os oes gennych bartner ac mae ei fanylion neu ei manylion yn ymddangos ar y ffurflen hon, rhaid iddo neu iddi lofnodi'r awdurdod isod.
Mae hwn yn ddatganiad cywir o'm hamgylchiadau ariannol.

Rwyf yn fodlon i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol wirio'r ffeithiau hyn gydag eraill fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EM ac rwyf yn awdurdodi'r bobl/sefydliadau hynny i ddarparu'r wybodaeth y gofynnir iddynt amdani.

Llofnod ____________________ Dyddiad

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|

Enw llawn (mewn priflythrennau) ____________________

Datganiad gan y Ceisydd

Mae hwn yn ddatganiad cywir o'm sefyllfa ariannol i a'm partner. Rwyf yn deall os rhoddaf unrhyw anwiredd ar y ffurflen hon, neu'r dogfennau a anfonaf gyda'r ffurflen hon, neu os byddaf yn hepgor unrhyw beth y:

a) gellir mynd â fi i'r llys.
b) Bydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn cymryd fy nghymorth cyfreithiol yn ôl felly bydd yn rhaid i mi dalu fy holl gostau cyfreithiol.

Rwyf yn deall os wyf wedi gwneud datganiad ffug, neu wedi dal gwybodaeth yn ôl yn fwriadol, y gellir fy erlyn, a all arwain at fy ngharcharu neu fy nirwyo.

Rwyf yn fodlon i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol wirio'r ffeithiau hyn gydag eraill fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EM ac rwyf yn awdurdodi'r bobl/sefydliadau hynny i ddarparu'r wybodaeth y gofynnir iddynt amdani.

Byddaf:

a) Yn darparu rhagor o dystiolaeth os bydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn gofyn.
b) Yn dweud wrth y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol os bydd unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a roddais.

Rwyf yn deall petai fy achos yn mynd i Lys y Goron neu unrhyw lys uwch, y gall y llys orchymyn i mi dalu rhywfaint o gostau cynrychiolaeth yr achos neu'r cyfan drwy Orchymyn Adfer Costau Amddiffyniad.

Rwyf yn deall os bydd fy achos yn mynd ymlaen i Lys y Goron neu unrhyw lys uwch, y bydd yn rhaid i mi ddarparu manylion am fy modd i'r llys a/neu'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol.

Llofnod ____________________ Dyddiad

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|

Enw llawn (mewn priflythrennau) ____________________

Datganiad gan y Twrnai a Gyfarwyddwyd

Rwyf i'n tystio: Fy mod wedi egluro ystyr eu datganiad i'r cleient.
Fy mod wedi darparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani gennyf ar y ffurflen hon mor gywir â phosibl.

Llofnod ____________________ Dyddiad

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|

Enw llawn (mewn priflythrennau) ____________________

Defnyddir y wybodaeth a roddwch ar y ffurflen hon, ac unrhyw wybodaeth ddilynol a dderbyniwn, i brosesu eich cais am Gymorth Cyfreithiol. Fe'i cedwir yn unol ag Egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 ac unrhyw ddarpariaethau cyfrinachedd perthnasol.

Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yw'r rheolydd data. Os oes angen, gallant wirio neu rannu'r wybodaeth a ddarparwch gyda sefydliadau eraill, megis: yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau EM, y Gofrestrfa Tir, Tŷ'r Cwmnïau ac, ar rai achlysuron, Asiantaethau Gwirio Credyd. Dim ond os bydd y gyfraith yn mynnu neu os bydd hynny'n angenrheidiol ar gyfer gwarchod cronfeydd cyhoeddus y byddwn yn rhannu'r wybodaeth.

Caiff y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol hefyd brosesu eich gwybodaeth i gynhyrchu gwybodaeth reoli neu ymchwil. Dim ond ar ffurf ystadegol neu ddienw y cyhoeddir canlyniadau ein hymchwil.

Cedwir y wybodaeth gyhyd ag sydd angen er mwyn i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol gyflawni ei ddyletswyddau dan Ddeddf Mynediad at Gyfiawnder 1999. Mae gennych hawl i wneud cais ffurfiol ar bapur i gael gweld y data personol a gedwir amdanoch, ei archwilio, a'i gywiro os yw'n anghywir.

## AT DDEFNYDD SWYDDOGOL YN UNIG

Nodwch unrhyw ffactorau ychwanegol a ystyriwyd wrth benderfynu ar y cais, gan gynnwys unrhyw wybodaeth a roddwyd ar lafar.

Penderfyniad ar Asesiad Ariannol:

Llofnod ______________________ Enw'r Swyddog Priodol ______________________

Dyddiad

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

Rhif yr achos

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | | |

Rhif gorchymyn cynrychiolaeth

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | | |